

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Ann Hughes (Groes) a'r teulu oll ym marwolaeth Arthur Jones, tad Ann, ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Elwyn Tudor (Henllan) gafodd lawdriniaeth ddiwedd yr wythnos ddiwethaf, a hefyd Osian Jones (Groes) sydd wedi cael anffawd. Mae Bob Davies (Llanfair) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Llandudno, fel ag y mae Morfudd Williams (Henllan) a Nellie Jones (Groes) yn yr Inffirmari. Daeth Elwyn Bailey (Llansannan) adref o'r ysbyty ddechrau'r wythnos a pharhawn i gofio amdano yntau ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Parhawn i gofio hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Hyderwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

## Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed) yng Ngholeg y Bala

Os nad ydych eisoes wedi rhoi eich enw, cofiwch bod angen i chi archebu lle ERBYN YFORY – Dydd Llun (Chwefror 3ydd) os ydych am dreulio'r penwythnos nesaf yng Ngholeg y Bala. Gallwch wneud hynny trwy ffonio'r Coleg (01678 520565). Bydd yr Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 i bob plentyn fydd yn mynd yno ac mae'n bosib y bydd yr Henaduriaeth yn medru cyfrannu ychydig hefyd i leihau'r gost. Cysylltwch â Rhodri i gael mwy o fanylion.

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Esther 3: 8-11 (BCND tud.453 / BCN: tud.415)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2<sup>il</sup> Chwefror 2014

## Darlleniad y Dydd

2 Corinthiaid 1: 1-7  
(BCND tud.196 / BCN: tud.179)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Cefais fy nharo gan hanes Terezin yr wythnos hon wrth wyllo rhaglen deledu am y lle. Ar ôl bod hefo Eilir a'r corau ym Mizoram, roedd y rhaglen yn hynod o afaelgar. Rhaglen ydoedd am hanes côr o Iddewon – côr o garcharorion y Natsiaid a fu'n gaeth yn 'nhref' Terezin yng ngwlad Tsiec dros gyfnod yr ail ryfel byd. Roedd rhai o'r Iddewon hyn wedi bod yn flaenllaw ym myd busnes a'r celfyddydau, ond bellach, roeddent yn cael eu camdrin yn enbyd a'u gorfodi i fyw a gweithio mewn gwerysll erchyll yn Terezin. Roedd yr amodau byw yn farbaraidd – lle i 6 mil o bobl ond 60 mil yn ceisio byw yno heb fawr o fwyd na gwres, a mil y diwrnod o bobl a phlant yn cael eu rhoi ar drên a'u gyrru i Auschwitz i farw yn y celloedd nwy yno, tra byddai mwy pob dydd yn cyrraedd Terezin.

Yn wyneb y fath greulondeb, llwyddodd un cerddor i gynnal ysbryd y 'dref' trwy ffurfio côr. I gychwyn, canu hen alawon Tsiec a fyddent ond roedd angen i'r Natsiaid gorthrymus glywed neges wahanol. Un o'r meddiannau a oedd gan y cerddor ifanc, Rafael Schachter, ymhlith ei eiddo prin oedd un copi o'r Requiem gan Verdi a dyma fynd ati i'w dysgu fesul cymal i'r côr. Yn y darn, mae darlun o Dduw fel Barnwr yn gweithredu o blaid y rhai a orthrymwyd ac yn dial eu cam. Roedd llygad-dystion ar y rhaglen yn tystio i'r ffordd ryfeddol a dirgel y byddent yn dod at ei gilydd i ymarfer a'r gwahaniaeth a wna'i perthyn i'r côr i fywydau ac ysbryd yr unigolion. Ar ddiwedd dydd, byddai'r côr yn ymarfer mewn hen selar damp a thywyll a byddai'r gerddoriaeth yn eu codi i fyd arall ac yn eu hatgoffa o fawredd a phrydferthwch gorau dynoliaeth. Codai'r gerddoriaeth eu hysbryd uwchlaw dioddefaint corfforol, ofn a phryder, gan gyflawni pwrpas nefol. Yn 1944, perfformiwyd y Requiem gerbron y milwyr ffaidd a chafodd y geiriau eu clywed ganddynt. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach roedd Rafael Schachter a gweddi ll y côr yn cael eu cludo ar wagenni anifeiliaid gan y trên a oedd yn arwain i Auschwitz.

Am dros ddegawd bellach, bu'r arweinydd cyfoes, Murry Sidlin, yn paratoi ei hun a'i gôr i fynd yno i Terzin i berfformio'r Requiem enwog, a hynny yng nghwmni'r llygad-dystion. Llwyddodd, ac fe gafodd y muriau tamp glywed cerddoriaeth ogoneddus Verdi unwaith eto. "Er mwyn iddynt wybod ein bod wedi eu clywed" – dyna oedd baich Sidlin. (BBC Four "Remembering the Holocaust: Defiant Requiem.")

Gwelwn o'r darlleniad yr wythnos nesa nad yw erledigaeth hiliol yn ddieithr i'r Iddewon ond cofiwn, o ystyried y darlleniad heddiw, fod Duw yn ein herio ni i ddefnyddio'r ffordd y cawn ein cysuro ganddo yn ein profedigaethau a'n treialon i gysuro eraill. Mae Duw yn ein "cysuro ni yng nghanol ein holl drafferthion, felly rydan ni, yn ein tro, yn gallu cysuro pobl eraill. Rydan ni'n eu cysuro nhw trwy rannu am y ffordd mae Duw'n ein cysuro ni." Dyma her wirioneddol i ni.

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant yn Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwen-Sul • **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. (*Mwy o fanylion ar y cefn.*)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi hefyd yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Dydd Jangl. Dewch am banded **erbyn 11.00** a sgwrs, ac yna cewch ginio fel arfer am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded â'r oedfa yn Saron am 10.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.30 a bydd cinio i ddilyn gyda'r casgliad yn mynd i Sasiwn y Chwiorydd. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reded â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Llun Bydd Cyfarfod Chwiorydd Cefn Berain yn cyfarfod am 7.00 pryd y bydd Mrs Bet Roberts, Trefnant yn rhannu atgofion.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### I ddod

- **ARFOGI 14** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yng Ngholeg y Bala Chwefror 14eg–16eg i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ewch i'r wefan [www.souledoutcymru.net](http://www.souledoutcymru.net).
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 28ain–Mawrth zail.
- **CYRRAEDD CENHEDLAETH GOLL** – Cynhadledd undydd dydd Sadwrn, Mawrth 8fed o 9.45-4.15 yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar gyfer pawb sy'n ymwneud neu sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid, gwaith plant, ysgol a chyrraedd teuluoedd. Prif Siaradwr: Mark Griffiths (awdur 'One Generation from Extinction').
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Berain, Mawrth 13eg, am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Eirlys Gruffydd fydd yn siarad am "Ffynhonnau".
- **LLANW** – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro rhwng Ebrill 21ain-25ain. Am fwy o wybodaeth, ewch i'r wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org).

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.